

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2019	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc 0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru">SeneddDeisebau@cynulliad.cymru</a>

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 39)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-880 Mae Cymru yn prysur golli ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth  
(Tudalennau 40 – 48)

2.2 P-05-881 Trwsio ein system gynllunio  
(Tudalennau 49 – 62)

2.3 P-05-883 Wythnos Genedlaethol Hanes Cymru  
(Tudalennau 63 – 70)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### Addysg

3.1 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion  
(Tudalennau 71 – 73)

3.2 P-05-788 Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru  
(Tudalennau 74 – 76)

3.3 P-05-834 Dylai Pob Ysgol Fod yn Ysgol Cyfrwng Cymraeg ac Addysgu Hanes Cymru  
(Tudalennau 77 – 78)



3.4 P-05-862 Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion

(Tudalennau 79 – 81)

## **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

3.5 P-05-797 Sicrhau mynediad i'r feddyginiaeth ffibrosis systig, Orkambi, fel mater o frys

(Tudalennau 82 – 85)

3.6 P-05-804 Mae angen cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae!!

(Tudalennau 86 – 89)

3.7 P-05-825 Diogelu ysgyfaint plant rhag llygredd niweidiol tra maent yn yr ysgol

(Tudalennau 90 – 103)

3.8 P-05-831 Rhowch ddiwedd ar yr annhegwch a'r gwahaniaethu yn y cymorth ariannol a roddir i ddioddefwyr sgandal gwaed wedi'i heintio yng Nghymru

(Tudalennau 104 – 107)

3.9 P-05-870 Gadewch i ni Sicrhau y Caiff Calon Pob Person Ifanc (10-35 oed) ei Sgrinio

(Tudalennau 108 – 115)

## **Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

3.10 P-05-852 Cyflwyno trwydded i reoli tir ar gyfer saethu adar hela mewn ymgais i roi terfyn ar erlid adar ysglyfaethus

(Tudalennau 116 – 118)

## **Gwleidyddiaeth**

3.11 P-05-818 Cyflwyno Cofrestr o Lobiwyr yng Nghymru

(Tudalennau 119 – 121)

## **Cydraddoldeb**

3.12 P-05-836 Adroddiadau ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau

(Tudalennau 122 - 124)

## **Economi a Thrafnidiaeth**

### **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

3.13 P-05-838 Cefnogwch y Llwybr Du o ran Ffordd Liniaru'r M4

(Tudalennau 125 - 126)

3.14 P-05-850 Amddiffyn Gwastatir Gwent ac atal traffordd arfaethedig yr M4

(Tudalennau 127 - 135)

## **Tai a Llywodraeth Leol**

3.15 P-05-843 Mwy o hawliau trydydd parti mewn apeliadau cynllunio

(Tudalennau 136 - 145)

3.16 P-05-858 Taenellwyr Dŵr i arbed bywydau nid i wneud arian!

(Tudalennau 146 - 149)

## **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

Item 5

## **5 Ystyried papur opsiynau: P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig**

(Tudalennau 150 - 155)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2.1

**P-05-880 Mae Cymru yn prysur golli ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Active Music Services, ar ôl casglu 1,745 o lofnodion ar-lein a 481 ar bapur, sef cyfanswm o 2,226 o lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb:**

\* Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol brys ar gyfer Addysg Cerddoriaeth gydag arian canolog penodol, yn unol â gweddill y DU. Bydd hyn yn sicrhau bod gwersi offerynnau cerdd a hyfforddiant llais fforddiadwy ar gael fel hawl i bob plentyn yng Nghymru.

\* Mae'r Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru yn rhan annatod o ddatblygiad Addysg Cerddoriaeth fel rhan o'r cwricwlwm creadigol ar draws pob maes.

\* Mae'r cyfraniad a wneir gan y diwydiant a'r gwasanaethau cerddoriaeth i economi a llesiant pobl Cymru yn rhy bwysig i'w anwybyddu.

\* Mae nifer y bobl ifanc sy'n astudio cerddoriaeth ar lefel Uwch yng Nghymru wedi haneru mewn deng mlynedd ac mae nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU wedi lleihau 40 y cant.

\* Nid yw cyni yn esgus i Lywodraeth Cymru ganiatáu dirywiad ein Gwasanaethau Cerddoriaeth. Dylai cyni fod yn rheswm dros fuddsoddi yn yr hawl cyfartal i bawb gael gwasanaethau, a chynaliadwyedd ein cymunedau.

Arwyddwch y ddeiseb hon i gefnogi'r ymgyrch i atal dirywiad Addysg Cerddoriaeth yng Nghymru.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Cwm Cynon
- Canol De Cymru

# Mae Cymru yn prysur golli ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Mehefin 2019

Petitions Committee | 11 June 2019

## Papur briffio gan Ymchwil y Senedd:

Rhif y ddeiseb: P-05-880

Teitl y ddeiseb: Mae Cymru yn prysur golli ei henw da o ran cerddoriaeth, a'i threftadaeth

**Cynnwys y ddeiseb:** Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol brys ar gyfer addysg cerddoriaeth gydag arian canolog penodol, yn unol â gweddill y DU. Bydd hyn yn sicrhau bod gwersi offerynnau cerdd a hyfforddiant llais fforddiadwy ar gael fel hawl i bob plentyn yng Nghymru.

- Mae'r Gwasanaethau Cerddoriaeth yng Nghymru yn rhan annatod o ddatblygiad addysg cerddoriaeth fel rhan o'r cwricwlwm creadigol ar draws pob maes.
- Mae'r cyfraniad a wneir gan y diwydiant a'r gwasanaethau cerddoriaeth i economi a llesiant pobl Cymru yn rhy bwysig i'w anwybyddu.
- Mae nifer y bobl ifanc sy'n astudio cerddoriaeth ar lefel Uwch yng Nghymru wedi haneru mewn deng mlynedd ac mae nifer y cofrestriadau ar gyfer arholiadau TGAU wedi lleihau 40 y cant.
- Nid yw cyni yn esgus i Lywodraeth Cymru ganiatáu dirywiad ein Gwasanaethau Cerddoriaeth. Dylai cyni fod yn rheswm dros fuddsoddi yn yr hawl cyfartal i bawb gael gwasanaethau, a chynaliadwyedd ein cymunedau.

### 1. Cefndir

Er bod cerddoriaeth yn bwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol ar hyn o bryd, bwriedir i wasanaethau cerddoriaeth gefnogi a gwella'r modd y caiff cerddoriaeth ei haddysgu mewn ysgolion trwy ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu ystod eang o offerynnau, datblygu canu a pherfformio mewn ensemblau, corau, a grwpiau eraill, yn yr ysgol, yn y gymuned ehangach, ac ar lefel ranbarthol a chenedlaethol. Mae gwersi canu ac offerynol allgyrsiol yn cael eu darparu gan staff teithiol, y tu allan i wersi, ond yn ystod oriau ysgol.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu ac ariannu gwasanaethau cerddoriaeth anstatudol. Caiff cyllid Llywodraeth Cymru ei ddarparu drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ac mae awdurdodau'n gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar eu blaenoriaethau lleol.

## 2. Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

O ganlyniad i'r pwysau sydd ar gyllidebau gwasanaethau cerddoriaeth yr awdurdodau lleol, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gwasanaethau Cerddoriaeth gan Huw Lewis, y cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau, ym mis Mawrth 2015. Cyhoeddwyd [Adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar wasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru](#) [PDF 539KB] ym mis Gorffennaf 2015. Roedd yr adroddiad yn rhoi braslun o'r gwasanaethau cerddoriaeth a ddarperir ar draws Cymru ar y pryd ac yn tynnu sylw at yr heriau sy'n bodoli o ran parhau i ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a datblygu darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth o ansawdd uchel yng nghyd-destun gostyngiad yng nghyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol ac yng nghyd-destun blaenoriaethau gwahanol. Cyhoeddwyd dau adroddiad cynnydd, [Grŵp gorchwyl a gorffen gwasanaethau cerddoriaeth: blwyddyn yn ddiweddarach](#) [PDF 362KB] (Ebrill 2017) a [Grŵp gorchwyl a gorffen gwasanaethau cerddoriaeth: adroddiad cynnydd terfynol](#) [PDF 541KB]

Fel y nodwyd yn llythyr y Gweinidog Addysg at y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £3 miliwn ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd rhwng 2018 a 2020 i gefnogi'r gwasanaethau cerddoriaeth a ddarperir.

## 3. Gweithgareddau'r Cynulliad

### Deisebau blaenorol

Ym mis Mehefin 2015, bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod deiseb ([P-04-637 Diogelu Dyfodol Cerddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru](#)) gan Friends of Bridgend Youth Music a oedd yn gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol annog Llywodraeth Cymru i ddiogelu hyfforddiant cerddorol mewn ysgolion, ac yn arbennig i:

- ailgyflwyno'r broses o glustnodi cyllidebau'n ganolog ar gyfer hyfforddiant offerynnol proffesiynol mewn ysgolion;
- gweithredu strategaeth genedlaethol i wrthdroi'r dirywiad yng Ngherddoriaeth Ieuenctid yng Nghymru;
- cynnig i blant a phobl ifanc yng Nghymru eu hawl i gael addysg sy'n datblygu eu personoliaethau, eu talentau a'u galluedd unigryw i'r eithaf.

Ar ôl gohebu â'r Gweinidog Addysg, CLILC a CBAC, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oedd dim arall y gallai ei wneud i fynd â'r mater yn ei flaen. Caewyd y ddeiseb yn 2016.

## Ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Yn dilyn pleidlais gyhoeddus, cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ymchwiliad i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati. Cyhoeddwyd ei adroddiad, [Taro'r Tant](#) [PDF 1MB] ym mis Mehefin 2018. Argymhelliad cyffredinol y Pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau cerddorol i gorff cenedlaethol hyd braich, a dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r arian craidd ar ei gyfer. [Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor](#), yn amodol ar ganlyniad astudiaeth ddichonoldeb i nodi ac asesu'r opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau cerddoriaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cymru baratoi Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad, cytunodd y Gweinidog Addysg y byddai'n estyn yr astudiaeth ddichonoldeb i archwilio creu cynllun ar gyfer addysg cerddoriaeth (yn hytrach na cherddoriaeth yn gyffredinol).

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod contract wedi cael ei ddyfarnu i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb, a fydd hefyd yn gofyn a ddylid fod Cynllun Cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth.

## 4. Darpariaeth yn Lloegr a'r Alban

### Lloegr

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd yr Adran Addysg ac Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, [The Importance of Music, A National Plan for Music](#). Dywedodd y Llywodraeth mai nodau'r cynllun cenedlaethol oedd galluogi plant o bob cefndir a phob rhan o Loegr i gael y cyfle i ddysgu offeryn cerddorol; creu cerddoriaeth gydag eraill; dysgu canu; a chael y cyfle i wneud cynnydd wrth ddatblygu eu galluoedd cerddorol.

Mae'r cynllun cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth yn berthnasol i bob ysgol, gan gynnwys academiâu ac ysgolion rhydd, ac mae'n parhau i fod yn rhan o bolisi addysg cerddoriaeth y Llywodraeth bresennol. Bydd y cynllun cenedlaethol yn rhedeg tan 2020.

Yn dilyn proses ymgeisio a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, sefydlwyd 123 o ganolfannau addysg cerddoriaeth, a ddechreuodd ar eu gwaith ym mis Medi 2012. Mae'r canolfannau yn ffederasiynau o sefydliadau lleol sydd â diddordeb mewn addysg cerddoriaeth. Gallant gynnwys ysgolion a sefydliadau addysgol eraill, yn ogystal â sefydliadau celfyddydol a cherddorol. Dywedodd yr Adran Addysg mai pwrpas y canolfannau addysg cerddoriaeth oedd gwella ansawdd a chysondeb addysg cerddoriaeth ar draws Lloegr yn yr ysgol a'r tu allan iddi.

Mae canolfannau addysg cerddoriaeth yn cael cyllid gan sawl ffynhonnell wahanol. Maent yn cael cyllid gan y Llywodraeth ganolog a ddyrennir yn ôl fformiwla sy'n cyfateb i gyfanswm nifer y disgyblion a nifer y disgyblion ym mhob ardal sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn gweithredu fel deiliad y gronfa ar ran yr Adran Addysg ar



gyfer y cyllid canolog hwn. Yn y flwyddyn ariannol 2018/19, rhoddodd yr Adran Addysg £75 miliwn o gyllid i ganolfannau addysg cerddoriaeth.

Ysgolion wnaeth y cyfraniad ail fwyaf at gyllidebau canolfannau addysg cerddoriaeth. A rhieni wnaeth y cyfraniad trydydd mwyaf at gyllidebau canolfannau addysg cerddoriaeth yn 2018/19. Roedd grantiau a chyfraniadau awdurdodau lleol yn cynrychioli cyfran llawer llai o gyllid ar gyfer canolfannau addysg cerddoriaeth.

## Yr Alban

Yn yr Alban, mae awdurdodau lleol yn ystyried bod hyfforddiant cerddoriaeth offerynnol yn wasanaeth dewisol ac ar wahân sy'n ategu'r cwricwlwm cerddoriaeth, sef sefyllfa debyg i'r hyn a geir yng Nghymru. Mae pob awdurdod lleol yn rheoli ei Wasanaeth Cerddoriaeth Offerynnol ei hun ac mae pob un yn gallu gosod ei ffioedd ei hun (os o gwbl), y taliadau llogi ar gyfer offerynnau a, lle mae ffioedd yn berthnasol, unrhyw eithriadau neu gyfraddau consesiynol. Cyhoeddodd Senedd yr Alban adroddiad, [A note of concern: The future of instrumental music tuition in schools](#) ym mis Ionawr 2019. Nodwyd yn yr adroddiad:

The Committee respects the democratic right of local authorities to take decisions about local expenditure and acknowledge the financial choices they face. However, the Committee believes in principle that music tuition should be provided free of charge in every local authority.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-880  
Ein cyf/Our ref KW/06020/19

Janet Finch-Saunders AC  
Aelod Cynulliad dros Aberconwy  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd  
CF99 1NA  
[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

7 Mai 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill ynghylch deiseb *Active Music Services*.

Rwy'n nodi bod y ddeiseb yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gynhyrchu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth sydd â chyllid canolog penodol sy'n unol â gweddill y DU – ac mae'r ddeiseb yn darparu nifer o enghreifftiau i gefnogi Cynllun o'r fath.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod addysg cerddoriaeth o ansawdd uchel ar gael i blant a phobl ifanc ar hyd a lled Cymru.

Nid Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol yn uniongyrchol am ddarparu gwasanaethau ym maes cerddoriaeth, cyfrifoldeb awdurdodau lleol ydynt - ac maent yn derbyn cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod y pwysau cyfredol y mae gwasanaethau cerddoriaeth yn eu hwynebu, a'r angen i gymryd camau cyn gynted ag y bo modd.

Dyna pam rwy wedi darparu cyllid ychwanegol o £3 miliwn i gefnogi darpariaeth gwasanaethau cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru yn 2018-19 ac yn 2019-20. Yn 2018-19, darparwyd £1.5 miliwn yn uniongyrchol i awdurdodau lleol flaenoriaethu fel y gwelant orau yn ôl anghenion lleol, yn erbyn amrywiol feini prawf a awgrymwyd mewn perthynas â sicrhau bod addysg cerddoriaeth o ansawdd uchel ar gael yn gyffredinol i bob dysgwr. Mae'r meini prawf a awgrymwyd yn cynnwys amrywiaeth o feysydd y gellir gwario'r cyllid arnynt, gan gynnwys:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Sicrhau mynediad i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
- Prynu offerynnau cerdd newydd a rhai sydd 'mewn perygl'.
- Sicrhau bod mynediad gan ddisgyblion at wersi, arholiadau a chyrsgiau.
- Talu costau bod yn rhan o gerddorfeydd, corau a bandiau.
- Cychwyn ensemble 'roc a phop'.

Yn 2019-2020, bydd £1.5 miliwn yn cael ei ddyrannu i addysg cerddoriaeth yn dilyn ystyried canlyniadau astudiaeth ar ddarparu gwasanaethau cerddoriaeth yn y dyfodol. Roeddwn i hefyd wedi sicrhau bod £100,000 ar gael yn 2018-19 ar gyfer Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru i gefnogi'r gwaith pwysig y maent yn ei wneud ac i wella cyfleoedd ein cerddorion ifanc.

Mae ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i ariannu addysg cerddoriaeth a gwella mynediad ati, sef *Taro'r Tant*, yn nodi 16 o argymhellion sy'n rhoi sylw i wella'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth ledled Cymru.

Mae fy swyddogion yn bwrw ymlaen â gwaith ar hyn o bryd i gyflawni'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae hynny'n cynnwys cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn y sector cerddoriaeth ledled Cymru i drafod y cynnig i gynnal astudiaeth ddichonoldeb. Yn dilyn y gwaith hwnnw, mae fy swyddogion wedi caffael contractiwr annibynnol i gynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn pennu ac asesu opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau cerddoriaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae rhai o'r argymhellion yn adroddiad *Taro'r Tant* yn cyfeirio at Gynllun Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth. Roedd y Pwyllgor wedi cadarnhau yn ddiweddarach mai'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth oedd hwnnw. Yn sgil hynny, rwy wedi cytuno i'r astudiaeth ddichonoldeb edrych ar y ffordd orau o greu cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg cerddoriaeth.

Amcanion yr astudiaeth ddichonoldeb yw:

1. Adolygu'r dystiolaeth bresennol a chynhyrchu tystiolaeth newydd i bennu'r dulliau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru.
2. Nodi arferion gorau'r dulliau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer darparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru.
3. Ystyried modelau gwahanol o wasanaethau cerddoriaeth a phennu'r angen a'r galw am wasanaethau o'r fath ac argymhell y cymorth sydd ei angen i gefnogi gwasanaethau eraill.
4. Adolygu'r dystiolaeth bresennol a chynhyrchu tystiolaeth newydd i ystyried dichonoldeb yr opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau addysg cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru. Bydd angen i hynny:
  - a. Ystyried a ddylid trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau i un corff 'hyd braich' cenedlaethol a chyflwyno opsiynau am y math o gorff y dylai fod a'r opsiynau ariannu ar gyfer unrhyw gynnydd.
  - b. Nodi ac ystyried pa opsiynau eraill a allai fod yn ymarferol i'w cyflawni o ran darparu gwasanaethau cerddoriaeth ar hyd a lled Cymru.
5. Ystyried a ddylid paratoi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth, ac

os felly, nodi ac argymell cynnwys y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth.

Mae *Consultancy Coop* wedi cael y contract i gynnal yr astudiaeth hon. Rydym yn disgwyl y bydd y gwaith wedi'i gwblhau ym mis Awst ac y bydd adroddiad ar gael rywbryd ym mis Awst.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

**Kirsty Williams AC/AM**

Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



## ACTIVE MUSIC SERVICES

# Music Consultancy & Choral Music Centre

**Senior Consultant: Dinah Pye AGSM, Dip. Ed, CFPS**  
**Welsh Woman of the Year Winner**

3.6.19

Dear Petitions Committee

Petition:P-05-880

The following documents are relevant to the above petition.

- 1 Task & Finish Report - published in 2015 and response from the Welsh Government in 2019.
- 2 Hitting the Right Note - WG Cultural report published in July 2018.
- 3 All correspondence from Active Music Services (AMS), Music Education Council (MEC), CAGAC, WLGA, ADEW as well as organisations and individuals to the Cabinet Minister for Education Kirsty Williams, the Chair of the Cultural Committee Bethan Sayed and Lord Elis Thomas.
- 4 All minutes since 2015 of meetings held between civil servants, AMS, MEC, CAGAC, ADEW, WLGA relevant organisations and individuals.
- 5 Terms & Reference for the Feasibility Study currently in progress.

On page 6 of the Welsh Government education policy document there are two pyramids (Diagram 1 & 2) setting out the progressive structure for delivering music education in Wales to 3-19 year olds.

*Quote 1: Music making in schools and individual/group tuition provided by music services - potentially reaching every child.*

*Quote 2: Skills development through music services pyramid and opportunities with external organisations.*

With a continuing call for music services to be delivered by local government it is increasingly disappointing that the Welsh Government continues to allow the creeping privatisation of services, closure of services, continuing redundancies and the disruption of the delivery and access for too many young people across Wales.

The need to establish a National Plan with secure funding in line with the rest of the UK with a suitable model for all children is now urgent if the Welsh Government is to maintain its legal obligations.

### HEAD OFFICE

**HEULWEN, Hirwaun Road, Hirwaun, Aberdare, CF44 9HW, South Wales, UK**  
**UK Tel: 01685 813318 International Tel: +44 1685 813318**

**E: [info@activemusicservices.co.uk](mailto:info@activemusicservices.co.uk)**

**[www.activemusicservices.co.uk](http://www.activemusicservices.co.uk)**

## ACTIVE MUSIC SERVICES

### CLOSURE STATEMENT FOR PETITION COMMITTEE

The 2,224 signatories to this petition are calling on the Welsh Government to act swiftly in providing a National Plan with a ring fenced budget for all pupils across the whole of Wales that will continue to provide the entitlement to free music tuition as a core subject to the age of 14 and beyond in order to underpin the important heritage, access and financial support so that ALL pupils continue to have the equal opportunity of reaching the standard required to participate in the National Youth Orchestra and Choir and beyond.


A Senydd debate involving all AMs is required urgently to obtain a clear picture of the current unacceptable situation.

The National Youth Orchestra of Wales was set up in 1945 and was the first in the world. It has since then, along with the National Youth Choir, provided equal opportunities and a first-class training experience for Wales' young musicians. Today due to numerous factors there is a serious decline in young musicians reaching the level required to participate musically or financially in these organisations.

For the last five years stakeholders and specialists have been providing the Welsh Government with information regarding the lack of a National Plan for Music and sustainable funding. The outcome being that several music services are being reduced, closed, teachers made redundant or forced to be self employed. England, Scotland and Northern Ireland all have a plan or strategy with funding as Wales continues to rely on goodwill to sustain its heritage.

Last July, following the launch of HITTING THE RIGHT NOTE by the WG Cultural Committee the Secretary for Education Kirsty Williams announced that a Feasibility Study would be produced within six months. By February 2019 this had not materialised and a Co-operative Consultancy has only just been appointed to produce a report sometime in the future.

After much pressure on the Government to release funding put aside for music the decline has been temporarily stemmed with a limited short term budget but with further redundancies announced on 17.5.19 the future situation remains bleak and unresolved.



### **P-05-881 Trwsio ein system gynllunio**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ruth Parker, ar ôl casglu cyfanswm o 250 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i drwsio ein system gynllunio; mae angen i ddatblygiadau newydd fod yn gynaliadwy.

Mae paragraff 4.2.15 o ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod digon o dir ar gael, neu y bydd digon o dir ar gael, ar gyfer cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. I allu ystyried bod tir ar gael yng ngwir ystyr y term, mae'n rhaid i'r safle dan sylw fod yn safle sydd wedi'i gynnwys mewn Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Mae'r cyflenwad pum mlynedd o dai yn rhoi gormod o bwysau ar awdurdodau lleol, sy'n golygu bod datblygiadau anaddas yn cael eu hadeiladu. Mae'r Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn ddiffygiol: nid yw'n ystyried tai gwag na nifer yr ail gartrefi yn yr ardal. O ganlyniad i'r prinder tir, mae cynghorau'n teimlo bod angen rhoi caniatâd cynllunio hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol o broblemau yn ymwneud â'r isadeiledd. Os yw cynghorau'n gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gwyrddroi eu penderfyniadau yn ystod y broses apêl.

Mae datblygwyr yn ymwybodol o'r bylchau yn y system, ac maent yn gallu manteisio ar fregusrwydd cymunedau drwy ymgymryd â datblygiadau hapfasnachol mawr y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan fod y datblygiadau hyn y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol, nid yw cynaliadwyedd yr ardal o ran llesiant yr economi, iechyd, trafndiaeth a'r amgylchedd yn destun gwaith craffu manwl. Hyd yn oed os yw trigolion yn tynnu sylw at astudiaethau/ystadegau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r ardal dan sylw, nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed mewn apeliadau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn a olygir gan dystiolaeth 'gadarn'.

Cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn atal datblygiadau anghynaliadwy ac er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r

dyfodol yn cael cyfle i fwynhau dyfodol rhesymol. Mae cymunedau'n teimlo nad yw polisi nac arfer yn adlewyrchu hyn.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberconwy
- Gogledd Cymru



## Deiseb: P-05-881 Trwsio ein system gynllunio

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Mehefin 2019  
Petitions Committee | 11 June 2019

### Papur briffio gan Ymchwil y Senedd:

Rhif y ddeiseb: P-05-881

Teitl y ddeiseb: **Trwsio ein system gynllunio**

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i drwsio ein system gynllunio; mae angen i ddatblygiadau newydd fod yn gynaliadwy.

Mae paragraff 4.2.15 o ddogfen Polisi Cynllunio Cymru yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau bod digon o dir ar gael, neu y bydd digon o dir ar gael, ar gyfer cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai. I allu ystyried bod tir ar gael yng ngwir ystyr y term, mae'n rhaid i'r safle dan sylw fod yn safle sydd wedi'i gynnwys mewn Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai.

Mae'r cyflenwad pum mlynedd o dai yn rhoi gormod o bwysau ar awdurdodau lleol, sy'n golygu bod datblygiadau anaddas yn cael eu hadeiladu. Mae'r Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn ddiffygiol: nid yw'n ystyried tai gwag na nifer yr ail gartrefi yn yr ardal. O ganlyniad i'r prinder tir, mae cynghorau'n teimlo bod angen rhoi caniatâd cynllunio hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol o broblemau yn ymwneud â'r isadeiledd. Os yw cynghorau'n gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gwyrdroi eu penderfyniadau yn ystod y broses apêl.

Mae datblygwyr yn ymwybodol o'r bylchau yn y system, ac maent yn gallu manteisio ar fregusrwydd cymunedau drwy ymgymryd â datblygiadau hapfasnachol mawr y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol. Gan fod y datblygiadau hyn y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol, nid yw cynaliadwyedd yr ardal o ran llesiant yr economi, iechyd, trafnidiaeth a'r amgylchedd yn destun gwaith craffu manwl. Hyd yn oed os yw trigolion yn tynnu sylw at astudiaethau/ystadegau lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r ardal dan sylw, nid yw eu lleisiau'n cael eu clywed mewn apeliadau. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddiffinio'r hyn a olygir gan dystiolaeth 'gadarn'.

Cyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn atal datblygiadau anghynaliadwy ac er mwyn sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael cyfle i fwynhau dyfodol rhesymol. Mae cymunedau'n teimlo nad yw polisi nac arfer yn adlewyrchu hyn.

## Y cefndir

Mae polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru wedi'i nodi ym [Mholisi Cynllunio Cymru](#), a chyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf o hwn, Rhifyn 10, ym mis Rhagfyr 2018. Y prif sbardun ar gyfer adolygu Polisi Cynllunio Cymru oedd i'w wneud yn gydnaws â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* ac mae 'creu lle' yn nodwedd newydd ganolog ohono. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn disgrifio creu lle fel:

Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw "creu lle", sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf.

Mae "creu lle" yn ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau, hynny yn achos datblygiadau mawr sy'n creu lleoedd newydd yn ogystal â datblygiadau bach sy'n cael eu creu mewn lle ehangach.

Ni ddylai "creu lle" ychwanegu at gostau datblygiad ond rhaid wrth feddwl clyfar, amlddimensiwn ac arloesol a'i ystyried cyn cynhared yn y broses â phosib. Mae "creu lle" yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol at y datblygiad gan arwain at fuddiannau sy'n fwy na'r ffisegol a chryfhau penderfyniadau cynllunio.

Mae llawer o [Nodiadau Cyngor Technegol](#) sy'n cefnogi Polisi Cynllunio Cymru, ac mae'r rhain yn rhoi arweiniad manylach ar agweddau penodol ar y polisi cynllunio. Mae'r ddeiseb hon yn ymwneud â [Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 1: Cyd-astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai](#).

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi, fel rhan o'r broses o gynllunio datblygiad, bod angen i awdurdodau cynllunio ddeall eu marchnadoedd tai lleol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ofynion o ran tai yn eu hardal dros gyfnod y cynllun (paragraff 4.2.3), a:

4.2.6 Bydd yr Amcanestyniadau Aelwydydd Iefel awdurdod lleol diweddaraf i Gymru gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDLI) diweddaraf, a'r cynllun Llesiant ar gyfer ardal y cynllun, yn rhan sylfaenol o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y cynlluniau datblygu. Dylid ystyried y rhain ynghyd â thystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion fel beth mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni, cysylltiadau rhwng tai a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy, ystyriaethau'r Gymraeg, ac ymarferoldeb y cynllun er mwyn nodi strategaeth briodol ar gyfer darparu tai yn ardal y cynllun. Rhaid rhoi ystyriaeth briodol hefyd i'r ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn cynllun datblygu er mwyn sicrhau y caiff lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus eu creu.

### Hefyd

4.2.15 Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod digon o dir ar gael mewn gwirionedd, neu y bydd digon ar gael yn y dyfodol, i ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, wedi ei farnu yn ôl yr amcanion cyffredinol, sef graddfa a lleoliad y datblygu y gofynnir amdano yn y cynllun datblygu. Mae hyn yn golygu bod rhaid i safleoedd fod yn rhydd, neu'n hawdd i'w rhyddhau, oddi wrth gyfyngiadau ar gynllunio, cyfyngiadau ffisegol a chyfyngiadau perchenogaeth, a'i bod yn ymarferol yn economaidd eu datblygu er mwyn cefnogi creu cymunedau cynaliadwy. Er mwyn ystyried tir fel tir sydd

ar gael yn wirioneddol, rhaid iddo fod yn safle sydd wedi'i nodi mewn **Cydstudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai31** neu, nes bod Cydstudiaeth yn ofynnol i lywio'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) cyntaf, yn y trywydd tai y cytunwyd arno fel rhan o gynllun datblygu mabwysiedig. Mae'r trywydd tai yn dangos sut y bydd yr awdurdod cynllunio yn cadw cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai dros gyfnod y cynllun. [Pwyslais Ymchwil y Senedd]

Mae TAN 1 yn nodi:

6.2 Dylai ffigur y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai hefyd gael ei drin fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai. Pan fo'r astudiaeth gyfredol yn dangos bod y cyflenwad tir yn llai na'r cyflenwad 5 mlynedd gofynnol, neu lle nad oedd modd i'r awdurdod cynllunio lleol gynnal astudiaeth (gweler 8.2 isod), dylid rhoi pwyslais sylweddol ar yr angen i gynyddu'r cyflenwad wrth ddelio â cheisiadau cynllunio os yw'r datblygiad fel arall yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu a pholisïau cynllunio cenedlaethol.

Mae'r paragraff hwn, yn ei hanfod, yn nodi, os na all Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos ei fod â chyflenwad tir am bum mlynedd o leiaf ar gyfer tai, yna dylid rhoi cryn bwys ar yr angen i gynyddu'r cyflenwad wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio. Byddai hyn yn ei gwneud yn anos i awdurdodau cynllunio lleol nad ydynt â chyflenwad tir am bum mlynedd wrthod ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu ar dir nad yw wedi'i glustnodi yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer tai, pe bai'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â pholisi cynllunio fel arall.

**Fodd bynnag, mae paragraff 6.2 TAN 1 wedi'i ddatgymhwyso dros dro.**

Ym mis Mai 2018, cyhoeddodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y pryd, a oedd yn gyfrifol am gynllunio, [adolygiad o ddarpariaeth tai drwy'r system gynllunio](#). Dechreuodd yr adolygiad ym mis Gorffennaf 2018 gyda 'galwad am dystiolaeth'.

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet [ddatganiad ysgrifenedig](#) ar yr alwad am dystiolaeth a nododd:

Oherwydd y sefyllfa bresennol o safbwynt y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai ar draws Cymru, mae rhai Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cael ceisiadau 'tybiannol' i adeiladu tai ar safleoedd nad ydynt wedi'u dyrannu ar gyfer datblygiad mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae hyn yn creu ansicrwydd mewn cymunedau ac yn cael effaith andwyol ar y system ar sail cynlluniau.

Felly, meddai:

... paragraff 6.2 o Nodyn Cyngor Technegol 1 (TAN 1): Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai [wedi'i ddatgymhwyso]. Mae hyn yn dileu'r paragraff sy'n cyfeirio at roi pwysoliad "sylweddol" i'r diffyg cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer tai.

O ganlyniad i ddatgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1, mater i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau fydd penderfynu ar faint o ystyriaeth y dylid ei rhoi i'r angen i gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai pan nad oes gan Awdurdod Cynllunio Lleol ddigon o dir ar gyfer tai.

Mae datgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 yn cael effaith o 18 Gorffennaf 2018.

Ar 4 Hydref 2018, [gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd, gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad](#), pa mor hir fydd y datgymhwyso hwn yn parhau. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y datgymhwysiad yn dal i gael ei ystyried fel un dros dro, ond ni roddwyd amserlen bendant. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrth Ymchwil y Senedd yn ddiweddarach fod ‘cyfnod o flwyddyn yn rhesymol’.

Mae'r llythyr at y Pwyllgor hwn gan Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol presennol, yn nodi bod y cam galw am dystiolaeth bellach wedi dod i ben ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cam nesaf, gan gynnwys amserlen ddangosol ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Mae'n datgan bod y cam nesaf yn debygol o gynnwys adolygu agweddau ar bolisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer tai a chanllawiau cysylltiedig, sydd yn y [Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu](#).

### **Cyd–Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai**

Y Cyd–astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) yw'r dull i awdurdodau cynllunio lleol ei ddefnyddio i ddangos bod ganddynt gyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai drwy ddarparu datganiad cytunedig o argaeledd tir at ddibenion cynllunio. Darperir canllawiau ar sut i baratoi Cyd–Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn TAN 1.

Rhaid cynhyrchu Cyd–Astudiaeth yn flynyddol, gyda dyddiad sylfaenol o 1 Ebrill. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol sefydlu Grwpiau Astudio sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol (yn ddefnyddol, adrannau perthnasol mewn awdurdodau lleol (e.e. tai), cynrychiolwyr adeiladwyr tai, perchnogion tir, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ymgymerydd statudol, darparwyr seilwaith a phartïon priodol eraill) i sicrhau bod pob Cyd–Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn seiliedig ar dystiolaeth realistig a phriodol.

[Mae TAN 1 yn darparu rhagor o wybodaeth](#) am y broses Cyd–Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, gan gynnwys categorïddio safleoedd, a'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r cyflenwad tir ar gyfer tai.

Fel y nodwyd yn llythyr y Gweinidog, mae'r Cyd–Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn offeryn monitro ar gyfer cadw digon o dir y gellir ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer yr angen am dai. Felly nid yw'n ystyried materion fel cartrefi gwag neu ail gartrefi. Mae llythyr y Gweinidog yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried materion ehangach fel y rhain wrth asesu eu marchnad dai leol ac wrth ystyried y gofyn o ran tai, i'w nodi yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

### **Apeliadau cynllunio**

Mae llythyr y Gweinidog yn rhoi disgrifiad cryno o'r broses apeliadau cynllunio yng nghyfeirnod hon:

... bydd arolygwyr cynllunio'n penderfynu ynghylch unrhyw apeliadau ar sail y polisiâu lleol a chenedlaethol perthnasol. Mae gan bobl sy'n â diddordeb mewn canlyniad cais cynllunio rôl bwysig i'w chwarae yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ac arolygwyr cynllunio ystyried

unrhyw sylwadau perthnasol ar faterion cynllunio a fynegir gan breswylwyr lleol ac unrhyw drydydd parti arall. Fodd bynnag, nid yw gwrthwynebiad lleol ynddo ei hun yn rheswm dros wrthod caniatâd cynllunio.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgymhwyso paragraff 6.2 o TAN 1 dros dro, fel rhan o'i hadolygiad o ddarpariaeth tai drwy'r system gynllunio, fel y trafodwyd uchod.

Mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb hon, y cyfeirir at gynnwys y llythyr uchod.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Cwestiynau'r Cynulliad

Bu nifer o gwestiynau ysgrifenedig a chwestiynau llafar yn y Cynulliad ar fater TAN 1 a'r cyflenwad tir 5 mlynedd yn y blynyddoedd diwethaf. Ers datgymhwyso paragraff 6.2, cyflwynodd Andrew RT Davies AC [Gwestiwn Ysgrifenedig y Cynulliad](#) ar 3 Hydref 2018:

Gan nad yw 19 o'r 25 o awdurdodau cynllunio lleol yn gallu bodloni gofyniad Llywodraeth Cymru i gael cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai, pa mor hir fydd cael gwared ar baragraff 6.2 dros dro yn parhau? (WAQ77228)

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd ar 9 Hydref 2018:

A decision about whether or not to reinstate paragraph 6.2 of TAN 1 will be made as part of the full review of the delivery of housing through the planning system which I launched on 18 July with a 'call for evidence'.

### Ymchwiliad pwyllgor

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal [ymchwiliad i eiddo gwag](#). Mae'r cylch gorchwyl yn cwmpasu:

- i ba raddau y mae eiddo gwag yn effeithio ar y cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru;
- effaith eiddo gwag ar gymunedau yng Nghymru a'r heriau y mae awdurdodau yn eu hwynebu wrth geisio ymdrin â'r broblem hon;
- i ba raddau y mae gan awdurdodau lleol y pwerau deddfwriaethol sydd eu hangen arnynt i ymdrin ag eiddo gwag;
- esiamplau o arfer gorau wrth droi eiddo gwag yn dai fforddiadwy ac effeithlon o ran ynni; ac
- i ba raddau y mae awdurdodau lleol wedi manteisio ar y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n rhoi disgrisiwn iddynt godi premiwm y dreth gyngor ar dai gwag, ac effeithiolrwydd y polisi hwn.

Mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi ymgyngoriad ac arolwg ar-lein i'w helpu i gasglu tystiolaeth. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Mai a daw'r arolwg i ben ar 19 Mehefin. Mae Ymchwil y Senedd wedi cyhoeddi erthygl flog ar fater cartrefi gwag.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-05-881  
Ein cyf/Our ref: JJ/05861/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd  
CF99 1NA

[SeneddPetitions@assembly.wales](mailto:SeneddPetitions@assembly.wales)

15 Mai 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill ynglŷn â'r ddeiseb yn gofyn i Lywodraeth Cymru "drwsio ein system gynllunio", yn enwedig mewn perthynas â'r gofynion ynghylch cyflenwi tir ar gyfer tai a sicrhau bod datblygiadau newydd yn gynaliadwy.

Mae datblygu cynaliadwy a chreu cymunedau cydlynus wrth galon polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o *Bolisi Cynllunio Cymru*, a gafodd ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr y llynedd, yn seiliedig ar gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae *Polisi Cynllunio Cymru* yn canolbwyntio ar greu lleoedd fel elfen allweddol ar gyfer gwireddu dyheadau'r Ddeddf, ac yn ysgogi'r gwaith o lunio cynlluniau a gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli datblygiadau.

Rwy'n cydnabod y gallai awdurdodau cynllunio lleol sydd heb gyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai dderbyn ceisiadau cynllunio tybiannol i adeiladu tai. Dylai awdurdodau lleol benderfynu ynghylch pob cais o'r fath yn unol â'r polisiau perthnasol yn y cynllun datblygu maent wedi'i fabwysiadu, gan gynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'n bosibl y bydd diffyg cyflenwad tir pum mlynedd ar gyfer tai yn un o'r materion sy'n cael eu hystyried wrth benderfynu ynghylch cais cynllunio. Fodd bynnag, caniateir i'r Awdurdod wrthod ceisiadau nad ydynt yn ateb gofynion y polisi perthnasol. Yn yr un modd, bydd arolygwyr cynllunio'n benderfynu ynghylch unrhyw apeliadau ar sail y polisiau lleol a chenedlaethol perthnasol. Mae gan bobl sy'n â diddordeb mewn canlyniad cais cynllunio rôl bwysig i'w chwarae yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ac arolygwyr cynllunio ystyried unrhyw sylwadau perthnasol ar faterion cynllunio a fynegir gan breswylwyr lleol ac unrhyw drydydd parti arall. Fodd bynnag, nid yw gwrthwynebiad lleol ynddo ei hun yn rheswm dros wrthod caniatâd cynllunio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni fwriedir i broses y Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (JHLAS) ystyried materion megis adeiladau gwag. Mae'r JHLAS yn offeryn monitro sy'n ceisio sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yn cadw digon o dir sydd ar gael ac y gellir ei ddefnyddio i ddarparu'r tai maent wedi nodi bod eu hangen ar eu cymunedau. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried materion ehangach megis adeiladau gwag pan fyddant yn asesu eu marchnad dai leol, ac yn ystyried yr angen am dai a fydd yn cael ei amlinellu yn eu cynllunio datblygu lleol.

